



Social **Farms**  
& **Gardens**  
**Ffermydd a Gerddi**  
Cymdeithasol



Cwestiynau Cyffredin  
Rhandiroedd  
Cyngor i dyfwyr a  
cheiswyr tir yng  
Nghymru

Rhifyn rhif .1. Rhagfyr 2021



## Cwestiynau Cyffredin am Rhandiroedd

Os ydych chi'n dyfwr sy'n chwilio am lain randir neu berchennog tir sy'n ceisio sicrhau bod tir ar gael ar gyfer tyfu, mae ein Cwestiynau Cyffredin yn lle da i ddechrau.

### Beth yw Llain Randir?

- Mae pob llain randir er budd 1 neu 2 unigolyn / teulu. Nid ydynt yn brosiect tyfu cymunedol, er y gallai prosiect tyfu cymunedol gyfrif fel 1 plot.
- Yn draddodiadol, roedd lleiniau rhandir yn 250m<sup>2</sup>, ond yn gyffredinol mae lleiniau yn 1/2 maint (120m<sup>2</sup>), 1/4 maint (60m<sup>2</sup>). Mae micro-leiniau hefyd yn cael eu cydnabod yn eang yn awr, fel unrhyw beth o 3m<sup>2</sup> (tua 8 troedfedd x 4 troedfedd) i 8m<sup>2</sup> ac yn gallu tyfu gwared ar gyfer 1 person os caiff ei ddefnyddio'n dda.

### Rydym am ddatblygu cyfleoedd tyfu cymunedol – sut mae rhandiroedd yn ymwneud â hyn?

- Mae rhandiroedd ar gyfer 'unigolion' yn ffordd i'r bobl hynny sy'n cymryd rhan mewn prosiectau tyfu cymunedol 'symud ymlaen' unwaith y byddant wedi datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth wrth dyfu. Mae plot yn gyfle iddynt gael eu darn bach eu hunain o dir a chael eu hysgogi gan dyfu llysiâu drostynt eu hunain. Nid yw hyn o reidrwydd ar draul eu gwaith ar lain gymunedol ond yn ychwanegol yn hytrach nag 'yn lle'.

- Un model ar gyfer rhandiroedd y gellid eu datblyguw sawl llain micro-randiroedd, fel rhan o safle tyfu cymunedol ehangach. Mae cyllid ar gael ar hyn o bryd drwy [Cadwch Gymru'n Daclus, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur](#) ar gyfer datblygu mannau tyfu bwyd ar gyfer y gymuned - gellid defnyddio'r cymorth hwn i ddatblygu elfen gymunedol, gyda nifer o leiniau micro-randiroedd bach hefyd ar y safle. Gellir defnyddio micro-randiroedd i gynhyrchu incwm cynaliadwy i'r grŵp. Bydd rhent o £10 y flwyddyn yn cynhyrchu digon o incwm i brynu hadau neu ychydig o offer newydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.
- Mae lleiniau rhandir, yn enwedig micro-leiniau, yn caniatáu i unigolion a theuluoedd gael ymreolaeth dros eu lle tyfu eu hunain, wrth gymysgu â deiliaid lleiniau rhandir eraill. Mae gan y rhan fwyaf o leiniau rhandir gyfleusterau cymunedol, offer, cymorth ffurfiol ac anffurfiol gan gymheiriaid, a chyfleoedd i bobl ymgynnull a dod at ei gilydd ac felly maent yn dal i ddarparu cyfle ar gyfer tyfu cymunedol.
- Gallai ormoddedd o gynnyrch rhandiroedd fynd i: brosiectau bwyd dros ben; blwch llysiâu lleol, rhewgell gymunedol neu gynlluniau oergell; niferoedd cynyddol o gaffis a bwytai sy'n dymuno dod o hyd i gynnyrch lleol - pob un yn cynorthwyo'r gadwyn cyflenwi bwyd lleol a chyflenwi cymunedol.

## Rwy'n berchennog tir – beth am atebolrwydd rhedeg rhandiroedd?

- Mae cyfleoedd gwych i ddatblygu lleiniau rhandir newydd:
  - I helpu Cymru i fodloni'r galw enfawr am yr awyr agored a'r gofod tyfu
  - I gyflawni yn erbyn ac arddangos eich cyfraniad i'r Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol
  - I gyflawni eich nodau carbon-sero ôl Covid, agenda adfywiad gwyrdd chi'ch hun, a rhai'r genedl
  - Gall pwyllgorau rheoli rhandiroedd datganoledig sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned sy'n rhedeg nifer o safleoedd gynig:
    - Canlyniadau swyddi, cyflogadwyedd, cyfleoedd hyfforddi
    - Manteision cymdeithasol ac amgylcheddol (bodloni rheoliadau ansawdd dŵr a storio tail, mynd i'r afael ag unigrwydd, llifogydd a sychder, y potensial i wella ansawdd y pridd)

- Cefnogi eich gwaith i gynyddu'r ddarpariaeth o fwyd lleol
- Adeiladu cymunedau lleol mwy gwydn a chydlynol
- Cynorthwyo gyda newidiadau arfaethedig i gymhorthdal – 'taliadau er budd y cyhoedd'
- Gall Fermydd a Gerddi Cymdeithasol gefnogi'r gwaith o ddatblygu cytundeb prydles ar draws y safle ar gyfer grŵp cymunedol/CIC, a fyddai wedyn yn rheoli'r safle ac yn dal yr atebolrwydd cyhoeddus a'r asesiadau risg sydd eu hangen i redeg y safle'n ddiogel
- Gellid talu rhent tir i'r tîrfeddiannwr o'r fenter gymunedol sy'n rheoli

## A ellir defnyddio banc tir ar gyfer rhandiroedd?

- Wrth gwrs! Yn ddelfrydol, mae angen o leiaf 10 mlynedd o gytundeb prydles tir ar safleoedd os ydynt am gael unrhyw gyllid grant ar gyfer datblygu'r safle, ond yn hanesyddol mae llawer o safleoedd rhandir Awdurdodau Lleol wedi'u lleoli ar dir claddu yn y dyfodol (wedi'i neilltuo hyd nes y bydd angen), felly nid oes angen i'r safleoedd fod am byth.

## A oes angen caniatâd cynllunio ar y safle? / Beth sydd ei angen ar y safle?

- Mae tyfu bwyd ar unrhyw raddfa yn ddefnydd amaethyddol o dir, felly nid oes angen cais cynllunio newid defnydd fel arfer.
- Mae siediau bach a thai gwydr wedi caniatáu hawliau datblygu yng Nghymru erbyn hyn, felly mae hyn hefyd yn gwneud pethau'n haws. Mae rhai safleoedd yn darparu storfa offer cymunedol i gadw safleoedd i edrych yn daclusach.
- Yn ddelfrydol mae angen lle i gompostio gwastraff gwyrdd a storio dŵr/ dŵr prif gyflenwad hefyd.
- Gall Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol cynnig cymorth a chynghor fesul achos, gyda chynllunyydd tref siartredig mewnol yn ein tîm yng Nghymru.
- Mae canllawiau pellach ar ba ganiatâd cynllunio sydd ei angen ar gyfer defnydd cynyddol o dir sy'n tyfu bwyd ar gael [yma](#).

# Gwybodaeth Bellach

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn fel rhan o'r Tîm Datblygu Rhandiroedd Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r Tîm Datblygu Rhandiroedd Cenedlaethol yn un o chwe maes gwaith yn y prosiect Mannau Gwyrdd Gwydn.

Mae'r Tîm Datblygu Rhandiroedd Cenedlaethol yn un o chwe maes gwaith o fewn y prosiect Mannau Gwyrdd Gwydn. Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn bartneriaeth arloesol rhwng Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngrair y Gweithwyr Tir, Lantra, Rhwydwaith Bwyd Agored, ac Asedau a Rennir. Mae wedi derbyn cyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa [Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig](#) a Llywodraeth Cymru.

Am wybodaeth bellach am Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol neu Dîm Datblygu Rhandiroedd Cenedlaethol Cymru, cysylltwch â [wales@farmgarden.org.uk](mailto:wales@farmgarden.org.uk).

I gael mwy o wybodaeth am Fannau Gwyrdd Gwydn ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, ewch i'n gwefan <https://www.farmgarden.org.uk/resilient-green-spaces>

